

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Willows, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 9 Mehefin 2022

Dyddiad cyhoeddi: 20 Medi 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN digidol 978-1-80364-811-8

© Hawlfraint y Goron 2022

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Willows, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 9 Mehefin 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Willows yn bractis croesawgar a chyfeillgar a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth proffesiynol a gofalgwr i'w gleifion.

Roedd y practis wedi'i leoli yng nghanol dinas Abertawe ac roedd yn darparu awyrgylch modern a chroesawgar i'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu "Cynnig Rhagweithiol" o ran y Gymraeg i annog y cleifion a fyddai'n dymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg o bosibl i wneud hynny
- Arddangos gwybodaeth i annog cyfathrebu yn Gymraeg a sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn ddwyieithog
- Cynnig gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod y practis wedi gosod sgrîn deledu ar wal y man aros a oedd yn dangos gwybodaeth berthnasol am y practis ar ddolen. Roedd hyn yn cynnwys manylion y gweithwyr deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis a'u statws ar gofrestr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Gwelsom gleifion yn cael eu trin mewn modd gofalgwr a chyfeillgar mewn ystafelloedd triniaeth modern â chyfarpar da a oedd yn hyrwyddo urddas a pharch
- Gwelsom fod y practis yn hyrwyddo cyfrinachedd a gwelsom fod sgysiau cyfrinachol yn cael eu cynnal mewn modd a oedd yn hyrwyddo preifatrwydd
- Gwelsom fod y practis yn olau, yn cael digon o awyr ac yn fodern
- Hyrwyddwyd cydraddoldeb ac amrywiaeth ac roedd y practis yn hygyrch i bawb.

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

O'r deg cofnod claf a adolygwyd fel rhan o'r arolygiad, gwelsom fod cofnodion deintyddol cleifion yn cael eu cwblhau i safon uchel ar y cyfan. Fodd bynnag, canfuom nad oedd cydsyniad, sgrinio canser y geg ac archwiliadau mewn-eneuol bob amser wedi'u cofnodi'n gyson ym mhob ymweliad.

Gwelsom fod gan y practis bolisiau, trefniadau a gweithdrefnau priodol a digonol ar waith ar gyfer cymryd, trin a chofnodi pelydrau-X, ac roedd gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau priodol ar waith.

Roedd cyffuriau ac offer brys hefyd yn cael eu storio a'u rheoli'n gywir.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod derbynebaw yn cael eu darparu gan y fferyllfa gwaredu ar gyfer meddyginiaethau sydd wedi dyddio ac a dderbynnir i'w gwaredu
- Dylid hyfforddi arweinydd diogelu'r practis i lefel tri
- Dylai'r staff sy'n gweithio i'r practis gael hyfforddiant diogelu i lefel sy'n briodol i'w rôl, ac sy'n cael ei adnewyddu'n rheolaidd
- Sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau presennol ar gyfer golchi dillad gwely a gwisgoedd yn y practis yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-04 pe bai'r practis yn dymuno adfer y gwasanaeth hwn a gynigir i staff.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y practis ystafell ddihalogi wedi'i dodrefnu'n dda ac roedd mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith ym mhob rhan o'r practis
- Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol, ac yn addas i'r diben ac roedd y cyfarpar wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd y practis yn defnyddio system porth ar-lein i gleifion lenwi a diweddarau manylion eu hanes meddygol a sgrinio am COVID-19.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Mae gan Bractis Deintyddol Willows dîm o staff ymroddedig a phroffesiynol y gwelsom eu bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Roedd y staff yn ymdrechu i ddarparu safonau uchel o ofal i'w cleifion.

Gwelsom fod y practis wedi'i drefnu'n dda. Roedd polisiau a gweithdrefnau yn cael eu cadw ar-lein yn bennaf ar system storio cofnodion bwrrpasol. Roedd y rhain yn bodloni'r safonau a'r rheoliadau ar gyfer practisau deintyddol preifat yng Nghymru.

Roedd ffeiliau personol y staff yn cael eu storio'n ddiogel ac yn cynnwys y dogfennau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol a chydymffurfedd â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom fod cyfarfodydd staff boreol yn cael eu cynnal bob bore ac roedd cymorth i staff ar gael yn rhwydd gan y tîm rheoli sydd ar waith yn y practis.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal archwiliad rhagnodi gwrthficrobaidd
- Trefnu contract gyda'r cyngor ar gyfer cael gwared ar wastraff domestig
- Darparu contract sy'n nodi'r telerau ac amodau ar gyfer y meddyg sy'n darparu gwasanaeth yn y practis
- Sicrhau bod dogfennau cydymffurfio yn cael eu cadw er mwyn i'r meddyg ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau sy'n llywodraethu ei bractis meddygol.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff wedi'u cofrestru ar wasanaeth diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chynhelir gwiriadau ar hyn yn flynyddol
- Roedd y dogfennau diogelwch tân yn gyfredol
- Roedd strwythur rheoli effeithiol ar waith ac roedd y staff yn cael eu cefnogi'n dda.

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch y cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 24 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y rhan fwyaf o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn y practis am fwy na dwy flynedd.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion ar yr holiaduron yn cynnwys:

“Dw i erioed wedi teimlo mor gyfforddus mewn practis deintyddol, mae'r staff yma, o'r derbynnydd, i'r nyrsys deintyddol a'r deintydd i gyd yn gyfeillgar iawn ac yn wybodus.”

“Mae hwn yn bractis rhagorol. Mae'r newid lleoliad wedi bod yn drawsnewidiol.”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd rhai sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

“Cael mwy o ddeintyddion fel y gall mwy o bobl ddod.”

“Cyfnodau byrrach rhwng apwyntiadau.”

“Efallai mai'r unig beth negyddol yw'r diffyg ystafell aros sy'n addas i blant.”

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis oherwydd COVID-19. Gwelsom fod masgiau wyneb a gel alcohol ar gael wrth y fynedfa i'r practis, a phan oedd hynny'n briodol, byddai'r staff yn gofyn i'r cleifion wisgo masg a rhoi gel diheintio dwylo ar eu dwylo o ddsbarthwr a leolir wrth ddrws y practis.

Yn ogystal, roedd gan ddesg y dderbynfa sgrîn blastig integredig i amddiffyn y staff a'r cleifion.

Gwelsom fod y man aros yn olau, yn rhydd o annibendod ac yn awyrog a bod digon o seddi ar gael. Gwnaethom nodi bod gan y practis sgrin deledu a oedd wedi'i gosod ar y wal. Roedd hwn yn dangos gwybodaeth berthnasol am y practis i gleifion.

Roedd enw'r practis i'w weld yn glir uwchben prif fynedfa'r practis. Roedd oriau agor wedi'u harddangos ar y ffenestr flaen fawr yn ogystal â manylion y deintyddion a oedd yn gweithio i'r practis.

O'r 24 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC, dywedodd 23 fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd pob ymatebydd i'r holiadur hefyd eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer triniaeth pan oedd ei hangen arnynt.

Gwelsom gleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd a oedd yn gymwynasgar ac yn gyfeillgar.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ar gau yn ystod triniaethau. Cawsom ein sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal.

Gofynnwyd i'r staff sut y byddent yn cynnal sgwrs breifat neu sensitif pe bai angen a dywedwyd wrthym y byddai hyn yn cael ei wneud yn swyddfa rheolwr y practis, sydd y tu ôl i ddesg y brif dderbynfa. Cyn trafod unrhyw beth o natur gyfrinachol dros y ffôn, dywedwyd wrthym y byddai gwiriad adnabod y galwr yn cael ei gynnal er mwyn cynnal cyfrinachedd.

Gwelsom fod gan y practis gyflenwad cyfyngedig o daflenni gwybodaeth i gleifion. Yn ogystal, nid oedd gwybodaeth ar gael i gleifion mewn fformatau amgen (er enghraifft braille neu fformatau hawdd eu darllen).

Gwelsom fod y practis yn darparu rhywfaint o wybodaeth yn Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am sut i hawlio triniaeth ddeintyddol am ddim yn ogystal â thaflenni ar roi'r gorau i smygu. Yn ogystal, roedd y practis yn elwa o gael dau aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Roedd y rheolwr cofrestredig hefyd wrthi'n dysgu Cymraeg.

Gwnaethom nodi bod gan y practis fynediad at wasanaeth cyfieithu dros y ffôn ar gyfer y cleifion sy'n siarad ieithoedd eraill. Darparwyd hyn gan y bwrdd iechyd lleol.

Gwybodaeth i gleifion

Nid oedd gan y practis daflenni gwybodaeth ar gael i gleifion a oedd yn darparu gwybodaeth am y gwahanol fathau o driniaethau sydd ar gael yn y practis. Dywedwyd wrthym fod taflenni gwybodaeth i gleifion wedi'u tynnu o'r man aros er mwyn diogelu rhag y risgiau a berir gan bandemig COVID-19.

Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod fideo yn cael ei greu i roi gwybod i'r cleifion, a oedd yn mynychu'r practis, am hylendid y geg a'u haddysg ar sut y gellid cyflawni hyn, ac ar ddiwrnod ein hymweliad roedd taflenni gwybodaeth ar gael yn rhoi cyngor ar roi'r gorau i smygu. Gwelsom hefyd fod gan y practis daflen wybodaeth am y practis ar gael yn hawdd i gleifion.

Gwelsom fod gwybodaeth am ffioedd am driniaeth breifat yn ogystal â chostau triniaethau'r GIG wedi'i harddangos ar y sgrin deledu fawr a oedd yn bresennol ar y wal y tu ôl i ddesg y dderbynfa yn y man aros. Roedd y sgrîn wybodaeth hon hefyd yn darparu gwybodaeth am y staff sy'n gweithio yn y practis yn ogystal â manylion am oriau agor.

Gwelsom fod y practis wedi arddangos fersiynau Cymraeg a Saesneg o dystysgrifau cofrestru AGIC a gwelsom fod "Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol" y Cyngor Deintyddol Cyffredinol hefyd wedi'u harddangos.

Cawsom y datganiad o ddiben diweddaraf a thaflen wybodaeth i gleifion. Canfuom fod y ddwy ddogfen yn cynnwys yr wybodaeth ofynnol fel y nodir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Gwelsom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mewn modd prydlon ac amserol. Dywedwyd wrthym y gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Dywedodd y staff wrthym, pe bai'r deintydd yn rhedeg yn hwyr ar gyfer apwyntiad, y byddai'r cleifion yn cael eu hysbysu gan dîm y dderbynfa. Yna caiff y cleifion gynnig dewis apwyntiad newydd neu barhau i aros.

O'r 24 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC, ymatebodd y rhan fwyaf ei bod o leiaf yn weddol hawdd cael apwyntiad pan oedd angen. Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr hefyd eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol brys y tu allan i oriau. Roedd gwybodaeth am sut i gael gafael ar hwn ar gael ar beiriant ateb y practis deintyddol ac roedd yn nodi'r prosesau gwahanol i'w dilyn ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu cofnodion deintyddol deg claf. Gwelsom fod gan bob un dystiolaeth o gynllunio triniaeth priodol.

Cadarnhawyd hyn yn yr ymatebion i holiadur AGIC. Ymatebodd pob claf a holwyd eu bod yn teimlo eu bod yn cymryd cymaint o ran ag y dymunant ei wneud yn y penderfyniadau a wnaethpwyd ynghylch eu gofal, a dywedodd pob un ohonynt fod y tîm deintyddol wedi holi am eu hanes meddygol cyn cael unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Cawsom dystiolaeth o bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth i sicrhau bod hawliau dynol y cleifion yn cael eu cynnal bob amser. Roedd hwn wedi'i adolygu'n ddiweddar.

Roedd y practis wedi'i leoli'n gyfan gwbl ar lawr daear yr adeilad. Roedd mynediad trwy ddrws o flaen y practis ac roedd yn hygyrch gyda ramp i fyny at y drws ffrynt. Roedd gan y practis doiled i'r anabl yn ogystal â chyfleusterau ar gyfer cleifion bariatrig fel cadeiriau ystafell aros bariatrig a thoiled bariatrig. Roedd gan ddesg y dderbynfa ardal is ar gyfer cleifion yr oedd angen hyn arnynt.

Gwnaethom nodi bod gan y practis system dolen sain ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn drwm eu clyw ac roedd cadeiriau deintyddol ac ystafelloedd triniaeth yn hygyrch i bawb, gyda digon o le i'r cleifion hynny y gallai fod angen iddynt drosglwyddo o gadair olwyn.

Dywedwyd wrthym y byddai pob claf yn cael ei holi fel mater o drefn sut y byddai'n well ganddynt gael eu cyfarch. Byddai cleifion trawsrywiol yn cael eu cyfarch gan eu rhagenwau dewisol a byddai system negeseuon 'naidlen' ar y system cofnodion deintyddol electronig a ddefnyddir yn y practis, yn fodd i atgoffa'r staff.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo y gallant gael mynediad at y gofal cywir ar yr amser cywir, waeth beth fo'u nodwedd warchoddedig.

Dyweddodd cleifion nad oeddent yn wynebu unrhyw wahaniaethu wrth ddefnyddio'r practis deintyddol.

Canmolodd un claf y practis deintyddol yn frwd am ei ddull gweithredu, gan nodi:

“[Dilëwyd yr anabledd er mwyn cadw'r claf yn ddiennw]...Mae'r staff i gyd yn hynod amyneddgar ynglŷn â hyn ac yn gwybod i [fy nhrin yn briodol yn unol â'm hanghenion]. Dw i'n teimlo nad yw fy anabledd yn broblem, ac maen nhw'n mynd i'r afael â'r hyn sydd angen iddynt ei wneud heb wneud i mi deimlo fy mod yn bod yn anodd neu'n achosi gwaith ychwanegol. Dyna pam fyddwn i byth yn mynd at ddeintydd arall bellach.”

Gwranddo a dysgu o adborth

Dyweddwyd wrthym fod y practis yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu barn ac adborth cleifion ac y byddai'n darparu holiaduron i gleifion er mwyn cyflawni hyn. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai cleifion yn cael eu hannog i adael adolygiad ar Google a chyfryngau cymdeithasol.

Dyweddwyd wrthym y byddai'r practis yn trafod adborth gan gleifion mewn cyfarfodydd staff ac, os yw'n briodol, yn ystod cyfarfodydd tîm y bore”.

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd y practis yn arddangos gwybodaeth yn ymwneud â gwelliannau a wnaed o ganlyniad i awgrymiadau ac adborth cleifion, megis bwrdd neu sgrîn wybodaeth “dywedoch chi, gwnaethom ni”. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Gwnaethom nodi bod polisi cwynion y practis wedi'i arddangos ar y sgrîn deledu yn y man aros a gwelsom fod crynodeb o hwn hefyd ar gael yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Dyweddwyd wrthym fod gan y practis bolisi cwynion gwahanol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat. Roedd pob polisi yn cynnwys manylion person a enwir y dylid cyfeirio cwyn ato, yn ogystal ag amserlen ar gyfer ymateb. Yn ogystal, cynhwyswyd manylion sefydliadau y gellid uwchgyfeirio cwyn atynt. Gwelsom hefyd fod cleifion yn cael eu cyfeirio at AGIC o fewn y polisiau cwynion.

Gwelsom fod y practis yn cadw cofnod cwynion penodol. Roedd hwn yn gynhwysfawr ac yn cynnwys dadansoddiad llawn o'r gwyn gan gynnwys manylion unrhyw ymgais i'w datrys a chanlyniadau. Byddai archwiliadau cwynion yn cael eu hanfon at y bwrdd iechyd lleol i'w hadolygu ymhellach bob chwarter a byddai trafodaethau am hyn yn cael eu cynnal yn ystod cyfarfodydd staff.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y practis deintyddol wedi'i leoli yng nghanol dinas Abertawe. Roedd y practis, a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel caffi, wedi'i ailgynllunio'n llwyr gan y rheolwr cofrestredig presennol i gynnig practis deintyddol pwrpasol.

Roedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn dwt ac yn daclus ac roedd yr ystafelloedd triniaeth wedi'u dodrefnu'n dda ac yn fodern. Roedd gan y practis ystafell ddihalogi bwrpasol a oedd wedi'i lleoli tua chanol y practis.

Roedd ystafelloedd triniaeth, er eu bod heb ffenestri, wedi'u hawyru'n dda, wedi'u goleuo'n dda ac roedd y lloriau o ddyluniad 'cap a chilfwa' addas i sicrhau glanhau effeithiol.

Gwelsom fod y man aros yn fodern ac yn olau a chanddo ddigon o seddi.

Roedd rheolwr y practis yn defnyddio ardal swyddfa gymesur y tu ôl i'r brif dderbynfa.

Cawsom gopi o asesiad risg iechyd a diogelwch a gwblhawyd yn ddiweddar yn ogystal â chynllun parhad busnes a oedd yn cynnwys manylion y cwmnïau cyfleustodau a ddefnyddir gan y practis pe bai problem yn codi.

Gwelsom fod y practis wedi arddangos tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr ddilys yng nghegin y staff. Roedd poster Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch hefyd yn bresennol.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer tân yn y practis. Gwelsom fod yr asesiad risg tân wedi'i gwblhau ddiwethaf ym mis Hydref 2020. Nid oedd unrhyw gamau gweithredu wedi'u nodi i'w cwblhau. Cawsom dystiolaeth o lyfrau cofnodi diogelwch tân a chynnal a chadw. Roedd y rhain yn cynnwys manylion y gwiriadau a'r gwaith cynnal a chadw rheolaidd a wneir yn y practis. Gwelsom fod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis, a bod gwiriadau ar ddiffoddwyr tân yn cael eu cynnal yn flynyddol. Roedd gwiriadau ar gyfanrwydd drysau a llwybrau dianc yn cael eu cynnal yn wythnosol. Canfuom fod y goleuadau argyfwng wedi'u gwirio ddiwethaf ym mis Chwefror 2022 a bod angen i gwmni'r gwasanaeth ailadrodd y gwiriadau hyn bob mis. Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymwybodol o hyn ac ar adeg yr ymweliad,

roedd mewn cysylltiad â'r cwmni cynnal a chadw i ymweld â'r practis i ailadrodd y gwiriad hwn.

Gwelsom fod gan y practis nifer priodol o ddiffoddwyr tân, a bod y rhain o fath addas ar gyfer y practis. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant diogelwch tân yn ddiweddar.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod gan y practis bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau atal a rheoli heintiau'n effeithiol. Cawsom dystiolaeth o bolisiau a oedd yn ymwneud â hylendid dwylo, gwaredu gwastraff clinigol a threfniadau glanhau. Roedd gan y practis hefyd bolisiau penodol ar waith i sicrhau bod y risgiau a berir gan COVID-19 yn cael eu lliniaru.

Roedd gan y practis arweinydd rheoli heintiau dynodedig ar waith. Hwn oedd rheolwr y practis. Gwelsom fod Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 wedi'i gwblhau'n ddiweddar a bod y staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol i atal a rheoli heintiau. Roedd adolygiad o ffeiliau staff hefyd yn dangos bod yr holl staff sy'n gweithio'n glinigol yn y practis wedi darparu tystiolaeth foddhaol o imiwnedd hepatitis B.

Gwelsom fod amgylchedd y practis yn lân, mewn cyflwr da ac yn galluogi rheoli heintiau'n effeithiol. Gwelsom fod gan bob ystafell driniaeth amserlen lanhau ac roedd amserlen ar wahân ar gael ar gyfer yr ystafell ddihalogi. Câi'r amserlenni hyn eu cwblhau'n ddyddiol a chedwir cofnod o bob un.

Gwnaethom ofyn am dystiolaeth o wiriadau a gwblhawyd ar yr offer dihalogi a sterileiddio yn y practis, a darparwyd tystiolaeth o allbrintiau digidol a llyfrau cofnodi ar gyfer yr awtoclafau. Câi'r rhain eu cwblhau'n ddyddiol a'u gwirio'n wythnosol i sicrhau eu bod wedi'u cwblhau'n gyson gan y staff.

Gwelsom, er nad oedd y practis yn defnyddio system ddiogelwch offer miniog ar gyfer rhoi pigiadau anesthetig lleol, fe'n sicrhawyd bod y practis yn defnyddio dyfeisiau i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio offer miniog.

Gwnaethom holi'r rheolwr cofrestredig am y cymorth sydd ar gael i'r staff pe baent yn cael anaf nodwydd neu offer miniog a dywedwyd wrthym fod gwasanaeth iechyd galwedigaethol ar gael i'r holl staff. Wrth siarad â'r staff, cawsom ein sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r protocol i'w ddilyn pe baent yn cael anaf offer miniog yn ystod eu gwaith.

Drwy gydol ein hymweliad, gwelsom staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir.

Cawsom dystiolaeth o gontractau ar gyfer gwaredu gwastraff o'r practis. Fodd bynnag, canfuom nad oedd gan y practis gontract ar waith gyda'r awdurdod lleol ar gyfer symud a gwaredu gwastraff domestig. Ar adeg ein hymweliad, cyfrifoldeb y rheolwr cofrestredig, a fyddai'n mynd â'r gwastraff i safle amwynder yr awdurdod lleol, oedd hwn.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer trin sylweddau a oedd yn destun Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a chawsom ffolder a ddiweddarwyd yn ddiweddar yn cynnwys y taflenni data ar gyfer hyn. Nid oedd unrhyw gamau gweithredu wedi'u nodi.

Gwelsom fod y practis deintyddol yn darparu gwasanaeth golchi dillad mewnol ar gyfer gwisgoedd staff. Fodd bynnag, ar ddiwrnod ein hymweliad nid oeddem yn gallu gweld dogfennau cydymffurfio yn ymwneud â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-04 (Dihalogi Llieiniau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol). Yn unol â hynny, codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig a roddodd y gorau i gynnig y gwasanaeth hwn ar unwaith.

Yn ystod ein harolygiad, canfuom nad oedd offer deintyddol y gellir eu haildefnyddio bob amser yn cael eu rhoi mewn bagiau unigol ar ôl eu sterileiddio. Codwyd y mater hwn gennym ar unwaith gyda'r rheolwr cofrestredig, rheolwr y practis a'r nyrs ddadheintio. Gwelsom fod hyn yn cael ei gywiro ar unwaith, ac roedd yr holl offer a'r cyfarpar yn cael eu rhoi mewn bagiau ar unwaith a'u storio'n briodol.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis bolisi rheoli meddyginiaethau ar waith. Roedd y polisi hwn yn cynnwys y gweithdrefnau a'r prosesau i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu trin, eu storio a'u defnyddio'n ddiogel. Nid oedd y polisi yn cynnwys manylion gwaredu'n ddiogel ac felly roedd angen ychwanegu ato.

Dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn storio meddyginiaeth heblaw'r rhai sy'n ofynnol fel meddyginiaethau brys. Fodd bynnag, yn ystod ein harsylwadau o'r practis, gwelsom dystiolaeth o feddyginiaethau a ddefnyddir ar gyfer cyflyrau'r glust, y trwyn a'r gwddf wedi'u storio mewn drôr heb ei gloi yn un o'r ystafelloedd triniaeth. Fe'n hysbyswyd bod y meddyginiaethau hyn yn gyfrifoldeb meddyg a oedd yn ymweld a oedd yn defnyddio'r practis yn ôl yr angen i drin cleifion ar ran y bwrdd iechyd lleol ar gyfer cyflyrau'n ymwneud â'r glust, y trwyn a'r gwddf. Ar ôl hysbysu'r rheolwr cofrestredig o'r meddyginiaethau, cafodd y rhain eu tynnu o'r drôr ar unwaith a'u storio mewn modd diogel.

Yn ystod ein hadolygiad o gofnodion deintyddol cleifion, canfuom fod cofnodion clir yn cael eu cadw o'r meddyginiaethau a roddwyd. Gwelsom fod y staff yn rhoi gwybodaeth i gleifion am unrhyw feddyginiaethau a ragnodwyd gan y clinigwr a oedd yn rhoi'r driniaeth.

Dywedwyd wrthym y byddai meddyginiaethau a oedd wedi dyddio yn cael eu gwaredu mewn fferyllfa leol. Ar adeg ein hymweliad, ni chafwyd unrhyw dderbynneb gan y fferyllfa gwaredu o'u derbyn.

Gwnaethom adolygu'r cyffuriau a'r offer brys yn y practis a chanfod eu bod yn cael eu storio'n briodol, o fewn eu dyddiad darfod ac mewn man a oedd yn hygyrch i'r staff. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau rheolaidd i sicrhau bod cyffuriau ac offer brys yn bresennol ac yn barod i'w defnyddio pe bai angen.

Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf dynodedig. Y rhain oedd y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol. Cwblhaodd y ddau swyddog cymorth cyntaf dynodedig hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddiweddar. Roedd pecyn cymorth cyntaf llawn ar gael hefyd. Gwelsom fod yr eitemau ynddo yn briodol ac yn gyfredol.

Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff clinigol yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed i lefel briodol. Fodd bynnag, ni chafodd un clinigwr hyfforddiant yn y maes hwn yn ddiweddar. Dywedwyd wrthym mai'r rheolwr cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu dynodedig ar gyfer y practis. Er i ni gael tystiolaeth ei fod wedi cwblhau hyfforddiant i lefel dau, mae'n ofynnol cael hyfforddiant i lefel tri er mwyn cyflawni'r rôl hon.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis bolisi diogelu ar waith. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn cyfeirio at weithdrefn Diogelu Cymru Gyfan. Cawsom ein sicrhau o weld bod manylion cyswllt adrannau awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu yn ogystal â'r heddlu lleol wedi'u cynnwys yn y polisi diogelu.

Nid oedd copi caled o weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ar gael i'r staff ar adeg ein hymweliad.

Wrth gael eu holi, fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod y staff yn wybodus am y weithdrefn i'w dilyn pe bai ganddynt bryder ac yn gwybod â phwy i gysylltu am gyngor, cymorth ac arweiniad pellach pe bai angen.

Gwelsom fod yr holl staff wedi cwblhau gwiriadau cyn cyflogi boddhaol, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd yn fanylach ar gyfer y gweithlu plant ac oedolion.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Roedd ystafelloedd triniaeth newydd wedi'u gosod gyda chadeiriau deintyddol newydd.

Roedd ein harsylwadau o'r offer clinigol yn dangos ei fod yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth o restrau gwirio cyfnod sefydlu ar gyfer dechreuwyr newydd a staff asiantaeth er mwyn sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol i ddefnyddio'r offer hwn. Gwelsom offer yn cael ei lanhau a'i ddiheintio yn unol â chanllawiau atal a rheoli heintiau rhwng defnydd pob claf.

Roedd methiant offer clinigol yn cael ei gofnodi'n brydlon ac yn amserol. Byddai offer yr oedd angen ei gynnal a'i gadw yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd y bore er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod offer radiograffeg yn cael eu defnyddio'n ddiogel a chanfuwyd bod hyn yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Gwelsom fod lluniau pelydr-X yn cael eu tynnu'n ddigidol yn y practis.

Roedd y dogfennau a ddarparwyd i ni yn ystod ein hymweliad yn dangos bod gan y practis drefniadau diogel ar waith o ran yr amgylchedd, gwaith cynnal a chadw a phrofi offer pelydr-X. Roedd y rhain yn cynnwys cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd yn ogystal ag asesiad risg ymbelydredd.

Gwelsom dystiolaeth o adroddiadau archwilio critigol ar gyfer pob uned pelydr-X yn y practis deintyddol ac roedd prosesau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal ar gyfer prosesu delweddau. Roedd copi wrth gefn o ddata delweddau rhag ofn y byddai cyfrifiadur yn methu.

Dywedwyd wrthym fod rhai nyrsys wedi'u hyfforddi a'u bod yn gymwys i dynnu lluniau pelydrau-X, a bod y deintyddion a'r clinigwyr sy'n gweithio yn y practis yn asesu cymhwysedd yr holl staff yn eu rolau. Gwelsom fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roeddem yn fodlon bod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer derbyn, asesu a thrin cleifion a gwneud diagnosis ar eu cyfer. Amlinellwyd hyn yn natganiad o ddiben y practis a'r daflen wybodaeth i gleifion a oedd wedi'u hadolygu'n ddiweddar ac a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017).

Gwelsom dystiolaeth y byddai staff yn cael arweiniad a chyngor proffesiynol pan fo angen ac yn eu dilyn. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y practis yn elwa ar aelodaeth o Gymdeithas Ddeintyddol Prydain a oedd ar gael i roi cyngor proffesiynol pan fo angen. Amlygwyd hyn ymhellach gan ymlyniad at y canllawiau diweddaraf a ddarparwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru mewn perthynas â salwch anadlol.

Gwnaethom nodi fod y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithdrefnau Mewnwithiol i atal tynnu dannedd o'r safle anghywir.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Fe'n sicrhawyd o gael tystiolaeth o ymrwymiad i welliant parhaus gan y practis. Roedd hyn yn cynnwys manylion archwiliadau a gwblhawyd yn ddiweddar fel Sicrwydd Ansawdd a Diogelwch ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol Cymru yn ogystal â'r Offeryn Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth a'r Adnodd Hunanwerthuso Optimeiddio Sgiliau a ddarparwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Darparwyd tystiolaeth bellach ar ffurf archwiliadau a gynhaliwyd ynglŷn â chwynion, adborth cleifion, rhoi'r gorau i smygu, ymbelydredd ac archwiliad o gofnodion deintyddol cleifion i asesu cymhwysedd cadw cofnodion. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd y practis wedi cynnal archwiliad o ragnodi gwrthficrobaidd.

Llywodraethu wybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gan y practis bolisi cyfrinachedd staff ar waith a oedd yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion deintyddol cleifion yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel. Roedd mynediad at gofnodion deintyddol trwy system wedi'i diogelu gan gyfrinair ac roedd hyn yn dilyn polisi rheoli cofnodion priodol a adolygwyd yn ddiweddar. Dywedwyd wrthym fod cofnodion yn cael eu cadw am wyth mlynedd yn unol â'r rheoliadau.

Gwelsom fod ffolderi personol y staff yn cael eu cadw'n ddiogel o fewn cwpwrdd ffeilio y gellir ei gloi.

Cadw cofnodion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu deg set o gofnodion deintyddol cleifion. Daeth hyn i'r casgliad bod safon cadw cofnodion yr holl glinigwyr yn y practis yn uchel. Gwelsom fod cofnodion deintyddol cleifion yn glir ac yn cynnwys digon o wybodaeth.

Gwelsom fod gan bob claf siart deintyddol sylfaenol llawn a oedd yn cael ei ddiweddarau yn dilyn pob cwrs o driniaeth. Roedd archwiliad periodontol sylfaenol hefyd wedi'i gofnodi a, lle y nodwyd, roedd siart poced chwe phwynt periodontol llawn wedi'i gyflawni. Cofnodwyd manylion llawn y driniaeth a ddarparwyd hefyd ynghyd â chyfnodau galw'n ôl yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal.

Gwelsom fod hanes meddygol yn cael ei ddiweddarau ym mhob apwyntiad ar gyfer yr holl gofnodion deintyddol a adolygwyd gennym yn ogystal â hanes cymdeithasol gan gynnwys defnyddio tybaco ac alcohol.

Gwnaethom nodi na nodwyd sgrinio canser y geg ym mhob ymweliad ar gyfer unrhyw un o'r deg cofnod deintyddol a adolygwyd gennym, er bod archwiliad meinwe meddal wedi cael ei gynnal a'i gofnodi.

Nid oedd cydsyniad ychwaith yn cael ei gofnodi'n gyson yn y sampl o gofnodion deintyddol a adolygwyd gennym. Fodd bynnag, cawsom ein sicrhau bod polisi cydsyniad ar gael yn ogystal â pholisi i sicrhau bod hawliau'r rhai heb alluedd yn cael eu cynnal.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd y practis deintyddol yn elwa ar ddau reolwr cofrestredig, ac roedd un ohonynt hefyd yn unigolyn cyfrifol ar gyfer y practis. Roedd y ddau hefyd yn ddeintyddion yn y practis ac roedd ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol dros y practis. Roedd gan y practis hefyd reolwr practis cymwys a brwdfrydig yn ei swydd a oedd yn rheoli'r gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd.

Ar adeg ein hymweliad, roedd gan y practis bum deintydd yn darparu gwasanaethau yn y practis, ac roedd un ohonynt yn ddeintydd sylfaen. Yn ogystal, roedd y practis yn cyflogi dau therapydd deintyddol a deg nyrs ddeintyddol, ac roedd tair ohonynt dan hyfforddiant.

Roedd pob aelod o staff cymwys wedi'i gofrestru ar gofrestr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn darparu gofal a oedd o fewn cwrpas eu hymarfer ac yn unol ag amodau'r cofrestriad a nodir gan AGIC.

Gwelsom y tîm yn cydweithio'n dda. Gwelsom fod systemau cyfathrebu effeithiol ar waith ac roedd y staff yn trin ei gilydd â pharch. Darparodd rheolwr y practis arweinyddiaeth gadarn i'r tîm. Ategwyd hyn gan y rheolwyr cofrestredig. Roedd y practis yn ymddangos yn effeithlon ac yn cael ei redeg yn dda ac yn canolbwyntio ar ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion.

Gwelsom fod gan y practis ystod eang o bolisiau a gweithdrefnau a oedd yn berthnasol i'r practis. Roedd y rhain yn hawdd eu cyrchu i'r staff drwy system porth ar-lein ac ar ffurf copi caled lle'r oedd hynny'n briodol.

Y rheolwyr cofrestredig oedd yn bennaf gyfrifol am gyflwyno hysbysiadau i AGIC am ddigwyddiadau fel y nodir yn y rheoliadau. Pan gafodd ei holi, roedd yn dangos gwybodaeth am y gofynion hyn a chawsom ein sicrhau y byddai digwyddiadau'n cael eu hadrodd yn brydlon ac yn amserol.

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm rheolaidd a chawsom enghreifftiau o gofnodion y cyfarfodydd hyn. Byddai cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob deufis a byddai'r camau gweithredu a ddeilliodd ohonynt yn cael eu neilltuo i aelodau priodol o staff. Roedd cofnodion ar gael i'r holl staff eu darllen ac roedd disgwyl i'r staff lofnodi i gadarnhau eu bod wedi eu darllen.

Gweithlu

Dywedwyd wrthym am y broses a ddilynwyd gan y rheolwr cofrestredig ar gyfer recriwtio staff newydd. Dywedwyd wrthym y byddai pob aelod newydd o staff yn dilyn rhaglen sefydlu drylwyr. Cafodd hyn ei ddogfennu a'i roi i ni fel tystiolaeth. Byddai staff newydd yn cael eu hadolygu dri mis ar ôl dechrau cyflogaeth. Byddai perfformiad anfodhaol yn cael ei drin yn anffurfiol yn y lle cyntaf a byddai dyddiad adolygu tri mis arall yn cael ei osod. Byddai hyfforddiant pellach yn cael ei drefnu pe bai perfformiad staff newydd yn peri pryder.

Dywedwyd wrthym y byddai'r rheolwr cofrestredig yn talu am gofrestru ar gofrestr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, indemniad a chostau hyfforddi'r staff. Cawsom ein sicrhau bod y rheolwr cofrestredig wedi buddsoddi yn ei staff ac yn awyddus i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus eu gyrfaedd lle bo modd.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym mai anaml y defnyddid staff asiantaeth. Pe bai gan y practis broblemau staffio, byddai'n gofyn i staff rhan amser a fyddent yn ystyried gweithio sifftiau ychwanegol. Byddai gwyliau'n cael eu trefnu ar adegau gwahanol dros y flwyddyn er mwyn sicrhau bod digon o staff parhaol ar gael i ddarparu dilyniant gofal i'r cleifion. Pe bai angen nyrs ddeintyddol asiantaeth, dywedwyd wrthym mai dim ond asiantaethau ag enw da fyddai'n cael eu defnyddio. Yr asiantaeth fyddai'n cynnal gwiriadau o ran cydymffurfedd i sicrhau eu bod yn gymwys i weithio ar gyfer practis deintyddol, a byddai'r wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r practis. Byddai cyfnod sefydlu wedyn yn cael ei ddarparu i sicrhau bod y staff asiantaeth yn ymwybodol o sut i ddefnyddio offer yn ddiogel a'r prosesau ar waith yn y practis.

Gwelsom fod gan y practis bolisi chwythu'r chwiban a pholisi gwrth-fwllo ar waith. Roedd y ddau bolisi wedi'u hadolygu'n ddiweddar. Dywedwyd wrthym y gallai'r staff fynd at y ddau reolwr cofrestredig neu reolwr y practis pe bai ganddynt bryder yr hoffent ei godi.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai'r staff yn defnyddio ap negeseuon ar gyfer ffonau symudol i'w cynorthwyo i gydweithio. Byddai dolenni i ddogfennau pwysig hefyd yn cael eu hanfon trwy'r dull hwn.

Gwelsom fod arfarniadau'n cael eu cynnal yn flynyddol gan reolwr y practis, a ddarparwyd tystiolaeth o ffeiliau staff a oedd yn cynnwys manylion am wiriadau cyn cyflogi a thystysgrifau cymhwyster.

Gwelsom dystiolaeth o dystysgrifau hyfforddiant gorfodol ar gyfer yr holl staff a chanfuom fod cydymffurfedd â hyn yn uchel iawn. Roedd pob aelod o staff wedi dilyn hyfforddiant diweddar mewn cynnal bywyd sylfaenol, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017, diogelwch tân ac atal a rheoli heintiau.

Gofynnwyd i'r rheolwr cofrestredig am fanylion yr hyfforddiant a gwblhawyd ganddo i sicrhau ei fod yn gallu rheoli'r practis deintyddol yn effeithiol. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant wedi'i gynnal mewn meysydd fel cyllid a busnes, rheoli practisau ac adnoddau dynol. Cyflawnwyd hyn trwy amrywiaeth o ddulliau megis gweminarau, diwrnodau hyfforddi a chyrsiau hyfforddi ar-lein.

Yn ystod yr arolygiad canfuom fod meddyg wedi bod yn defnyddio ystafell yn y practis deintyddol yn ôl yr angen i ddarparu triniaethau a gwasanaethau yn ymwneud â chyflyrau'r glust, y trwyn a'r gwddf. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod hyn yn cael ei gynnig gan y meddyg ar ran y GIG. Fodd bynnag, canfuom nad oedd unrhyw ddogfennau na chontract ar waith i nodi'r telerau y gallai'r meddyg ddefnyddio'r feddygfa yn y practis. Yn ogystal, nid oedd gan y rheolwr cofrestredig unrhyw ddogfennau yn ymwneud ag addasrwydd y meddyg i weithio na chydymffurfedd â'r rheoliadau sy'n llywodraethu ei bractis. Dywedwyd wrthym fod y meddyg i ffwrdd am gyfnod estynedig o wyliau ac nad oedd ganddo unrhyw gleifion wedi'u cofrestru ar adeg ein hymweliad.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad, y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon a nodwyd ar unwaith	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nad oedd deunyddiau ac offer deintyddol a gedwir mewn lleoliad canolog wedi'u gosod mewn bagiau priodol.	Gallai hyn olygu y gallai eitemau sydd wedi'u sterileiddio gael eu halogi	Codwyd hyn ar unwaith gyda'r rheolwr cofrestredig, rheolwr y practis a'r nyrs ddihalogi	Cafodd eitemau eu symud ar unwaith o'r man hwn, eu hail-sterileiddio a'u rhoi mewn bagiau a'u storio'n effeithiol.
Gwelsom fod y practis yn defnyddio peiriant golchi dillad i olchi gwisgoedd staff	Gan mai lleoliad gofal sylfaenol yw hwn, mae hyn yn gofyn am gadw at ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-04 na ellid ei sicrhau ar ddiwrnod ein hymweliad	Codwyd hyn ar unwaith gyda'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis	Daeth y gwasanaeth peiriant golchi dillad a'r gwasanaeth golchi dillad mewnol i ben ar unwaith. Hysbyswyd yr holl staff ar unwaith a gosodwyd arwydd ar y peiriant golchi yn rhybuddio staff i beidio â'i ddefnyddio.
Canfuwyd meddyginiaethau'n ymwneud â thriniaethau ar gyfer cyflyrau'r glust, y trwyn a'r gwddf mewn drôr heb ei gloi mewn deintyddfa	Gallai hyn arwain at fynediad heb awdurdod gan gleifion ac ymwelwyr	Gwnaethom hysbysu'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis ar unwaith o'n canfyddiadau.	Symudwyd meddyginiaethau ar unwaith i gwpwrdd dan glo er mwyn atal mynediad heb awdurdod

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Willows, Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 9 Mehefin 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd o'r gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Willows, Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 9 Mehefin 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gwasanaeth	gweithredu'r	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau'r canlynol:	4.1 Gofal ag urddas; Rheoliad 13.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Bydd aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu nodi'n glir gyda bathodynau priodol. Byddwn yn cynnig defnydd o linell iaith i gynorthwyo cleifion.	Richard Amos	(Prif Ddeintydd)	Deufis
<ul style="list-style-type: none"> Gwneir 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg i gleifion 		Rydym yn y broses o ddarparu taflenni yn Gymraeg a Saesneg.	Richard Amos	(Prif Ddeintydd)	Pedwar mis
<ul style="list-style-type: none"> Bod gwybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg Bod gwybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau amgen i'r rhai ag anawsterau hygrychedd (er enghraifft, fformat hawdd ei ddarllen neu braille). 		Bydd taflenni gwybodaeth i gleifion yn cael eu hargraffu mewn fformatau hawdd eu darllen ac maent ar gael ar ein gwefan yn yr adran Cwestiynau Cyffredin.	Richard Amos	(Prif Ddeintydd)	Pedwar mis

Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod taflenni gwybodaeth ar gael i gleifion fynd â nhw.	4.2 Gwybodaeth i gleifion, Rheoliad 13 (9) (a), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae taflenni ar gael yn y dderbynfa ac mae gwybodaeth ar gael ar ein gwefan.		Wedi'i gyflawni
Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig roi arddangosfa 'dywedoch chi, gwnaethom ni' ar waith mewn man sy'n hygyrch i gleifion er mwyn annog awgrymiadau gan gleifion i wella'r practis ymhellach.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth, Rheoliad 16 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Byddwn yn cyflwyno adran i'n hystafell aros i annog adborth gan gleifion.	Richard Amos (Prif Ddeintydd)	Tri mis
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod contract ar waith i sicrhau bod goleuadau argyfwng yn cael eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw'n gywir yn y practis rhag ofn y bydd tân.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; Rheoliad 22 (4e) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Cysylltwyd â'r contractwyr gwreiddiol ac maent ar fin ymweld i'w hadolygu.		30 Medi 2022
Os bydd y rheolwyr cofrestredig yn dymuno aildechrau'r gwasanaeth golchi dillad ar gyfer gwisgoed staff yn y practis, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n	2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi, Rheoliad 13 (2) Rheoliadau	Rydym yn adolygu dichonoldeb darparu golchdy gofal iechyd ar y safle.	Tesni Metcalfe (Prif Ddeintydd)	Deufis

<p>llawn â'r rheoliadau ar gyfer golchi llieniau ym maes gofal iechyd (Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-04).</p> <p>Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod contract ar waith gyda'r cyngor lleol ar gyfer casglu gwastraff domestig o'r practis.</p>	<p>Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017; Rheoliad 8 (1m) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Mae cytundeb gyda'r cyngor wedi cychwyn.</p>		
<p>Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau eu bod yn cael derbynneb gan y fferyllfa am feddyginiaethau a dderbyniwyd i'w gwaredu o'r practis deintyddol.</p>	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau; Rheoliad 13(4a), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Caiff derbynneb ei roi am waredu meddyginiaeth a bydd y polisi'n cael ei ddiweddarau yn unol â hynny.</p>	<p>Donna Brown (Rheolwr y Practis)</p>	<p>Mis</p>
<p>Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod yr arweinydd diogelu dynodedig yn cwblhau hyfforddiant i lefel tri.</p> <p>Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn adnewyddu eu hyfforddiant mewn</p>	<p>2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl; Rheoliad 14 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017;</p>	<p>Rydym yn ceisio eglurhad ynghylch a oes angen y lefel hon o hyfforddiant gan ein bod wedi cael canllawiau sy'n mynd yn groes i'w gilydd. Darperir hyfforddiant priodol pan fydd y mater hwn wedi'i egluro.</p> <p>Rydym wedi cyflwyno archwiliad blynyddol o gymwysterau diogelu.</p>	<p>Tesni Metcalfe (Prif Ddeintydd)</p> <p>Richard Amos (Prif Ddeintydd)</p>	<p>30 Hydref 2022</p> <p>Chwe mis</p>

diogelu plant ac oedolion agored i niwed yn rheolaidd i lefel briodol.				
Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod archwiliad ar gyfer rhagnodi gwrth-ficrobiaid yn cael ei gynnal.	3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi; Rheoliad 16(1) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae archwiliad rhagnodi wedi'i gwblhau.	Conor Twomey (Deintydd Sylfaen)	Wedi'i gyflawni
Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod cydsyniad a sgrinio canser y geg yn cael ei gynnal a'i gofnodi'n gyson yng nghofnodion deintyddol y cleifion.	3.5 Cadw cofnodion; Rheoliad 20(1) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Yn unol â pholisi'r practis, mae cydsyniad a sgrinio canser y geg yn hanfodol i bob claf a dylid eu cofnodi yn nodiadau'r claf. Mae nodiadau templed wedi'u haddasu i annog cofnodi'r ddau.		Wedi'i gyflawni
Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig ddarparu contract i'r meddyg sy'n ymweld sy'n nodi telerau ymgysylltu, rolau a chyfrifoldebau wrth weithio yn y practis deintyddol.	7.1 Gweithlu; Rheoliad 20(3,4) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Rydym yn y broses o ddarparu contract.	Donna Brown (Rheolwr y Practis)	Deufis
Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod ffeil yn cael ei chadw sy'n dangos cydymffurfedd â'r		Bydd ffeil bersonél yn cael ei chadw a'i diweddarau o bryd i'w gilydd.	Donna Brown (Rheolwr y Practis)	Deufis

rheoliadau i sicrhau bod y meddyg sy'n ymweld yn gymwys i weithio.				
--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd o'r gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Richard Amos

Swydd: Prif Ddeintydd/Perchennog y Practis

Dyddiad: 17/8/2022